



Cyngor Tref TREGARON Town Council

Clerc/Clerk: Fflur Lawlor

E-bost/E-mail: clerc@cyngor-tregaron-council.org.uk

Cyfarfod mis Chwefror Cyngor Tref Tregaron / Tregaron Town Council February Meeting

Nos Lun / Monday 19.02.2024

7.30yh/pm – yn Neuadd Goffa Tregaron / Memorial Hall

COFNODION CYFARFOD CYNGOR MIS CHWEFROR / FEBRUARY COUNCIL MEETING MINUTES

Eitem / Item	Gweithred / Action
<p>1. CROESO / WELCOME Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. <i>The Chair welcomed everyone to the meeting.</i></p> <p>PRESENNOL / PRESENT: Cyng/Cllr Arwel Jones (Cadeirydd / Chair) Catherine Hughes, Dafydd Richards, Dewi Evans, Rhydian Wilson, Gwion James, Rhian Jones, Owain Pugh & Rhian Hughes</p> <p>Clerc / Clerk – Fflur Lawlor</p> <p>Ar lein / Online – Teams: Cyng/Cllr Sian Jones & PSCO John Evans</p>	
<p>2. YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES Cyng/Cllr. Meirian Morgan</p> <p>Cyng/Cllr Ifan Davies, Aelod Lleol Cyngor Sir Ceredigion County Council Local Member</p>	
<p>3. MATERION PERSONOL / PERSONAL MATTERS Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Catherine Hughes a'r Clerc yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch i Spar a Caron Stores am ddarparu'r lluniaeth a'r mins peis ar gyfer dathliad y Nadolig.</p> <p><i>Condolences were extended to Cllr. Catherine Hughes & the Clerk in their recent bereavement.</i> <i>Thanks to Spar and Caron Stores for provding the refreshements and mince pies for the Christmas celebration.</i></p>	
<p>4. ADRODDIAD YR HEDDLU / POLICE REPORT Roedd PSCO John Evans yn bresennol ar lein – cwpwl o bethau i'w adrodd dros y mis diwethaf.</p> <p><i>PSCO John Evans was present online – couple of things to report from the last month.</i></p>	
<p>5. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL / DECLARATION OF PERSONAL INTEREST Dim i'w gofnodi. <i>Nothing to report.</i></p>	

CADEIRYDD / CHAIRMAN

6.	<p>CADARNHAU COFNODION 18/01/24 & 11/02/2024 / APPROVAL OF MINUTES FROM 18/01/24 & 11/02/2024</p> <p>Cytunwyd bod y cofnodion yn rhai cywir. <i>It was agreed that this was a true record of the minutes.</i></p> <p>18/01/24 Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Dafydd Richards</p> <p>11/02/24 Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Catherine Hughes Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Hughes</p>	
7.	<p>MATERION YN CODI O'R COFNODION / MATTERS ARISING FROM MINUTES</p> <p>Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
8.	<p>CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL</p> <p>A) Gwybodaeth a dderbyniwyd wrth CSC / <i>Information received from CCC –</i></p> <p>Ebyst wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod / <i>Emails forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • 17/01/2024 – Cynllun Effeithlonrwydd Ynni – Grantiau gosod ar agor nawr / <i>Energy Efficiency Scheme – Installation grants now open</i> • 29/01/2024 – Cronfa Cynnal y Cardi yn ail agor / <i>Cynnal y Cardi Fund re-opening</i> • 29/01/2024 – Cynllun Drafft Rheoli Ardal Gadwraeth Tregaron <i>Conservation Area Draft Management Plan</i> • 31/01/2024 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: Ffordd Dewi/Dewi Road Tregaron</i> • 31/01/2024 – <i>ProW Diversions</i> • 07/02/2024 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: Heol yr Orsaf / Station Road, Tregaron</i> • 08/02/2024 – <i>Tregaron Community Garden Funding – Place Plan</i> • 12/02/2024 – Cau Ffordd Dros Dro / <i>Temporary Road Closure: A485 Tynreithyn, Tregaron</i> • 15/02/2024 - Adroddiad Ymateb i'r Ymgynhoriad Cynllunio'r Ddarpariaeth Addysg / <i>Consultation Response report – Planning Education Provision – Plascrug, Llwyn yr Eos, Comins Coch & Padarn Sant</i> • 16/02/2024 – Nodiadau cyfarfod Cynghorau Thref a Chymuned Canol y Sir / <i>Notes of Town & Community Councils meeting mid of the County - 31.01.24</i> • 19/02/2024 – Nodiadau cyfarfod Cynghorau Thref a Chymuned Gogledd y Sir / <i>Notes of Town & Community Councils meeting south of County - 30.01.24</i> <p>B) Diweddariad gan yr Aelod Lleol / <i>Update from the Local Member, Cyng/Cllr Ifan Davies –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i> <p>C) Adborth o'r cyfarfod 12/02/24 / <i>Feedback from the meeting on 12/02/24</i></p>	

	<p>Derbyniwyd adborth gan CSC yn dilyn y cyfarfod a'r opsiynau a gyflwynwyd iddynt. Maent wedi cytuno i'n holl geisiadau. Rydym nawr i aros i'r swyddogion perthnasol gysylltu i symud ymlaen gyda'r gwaith cyn 1af Ebrill.</p> <p><i>Feedback has been received from CCC following the meeting and the options we presented to them. They have agreed to all the requests. We are now to wait for the relevant officers to make contact to move forward with the work prior to 1st April.</i></p>																
9.	<p>CYFRIFON / FINANCIAL MATTERS</p> <p>A) Balans y Banc Chwefror / <i>February Bank Balance</i> –</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrif Busnes Cyfredol / <i>Business Current</i> – £16,230.00 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> – £17,186.30 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Current</i> (Cadeirydd / <i>Chairman</i>) – £3,722.90 • Cyfrif Busnes wrth gefn / <i>Business Reserve</i> (<i>Gratuity</i>) – £577.18 <p><u>Taliadau mis Chwefror / <i>February payments</i> –</u></p> <table style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 80%;">• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i></td> <td style="width: 10%; text-align: right;">£300.12</td> <td style="width: 10%;"></td> </tr> <tr> <td>• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i></td> <td style="text-align: right;">£301.50</td> <td></td> </tr> <tr> <td>• HMRC</td> <td style="text-align: right;">£150.60</td> <td></td> </tr> <tr> <td>• DJS Engineering Services Ltd (LOLER – Flag poles)</td> <td style="text-align: right;">£30.00</td> <td></td> </tr> <tr> <td>• Zurich (Renewal 2024/25)</td> <td style="text-align: right;">£1,532.61</td> <td></td> </tr> </table> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Owain Pugh Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhydian Wilson</p> <p>B) Incwm / <i>Income</i> – TAW 2022/23 - £2,234.23 / <i>VAT return</i> 2022/23 - £2,234.23</p> <p>C) Cyflogau 24/25 <i>Salaries</i>– Penderfynwyd gofyn i H.Bulman barhau i wneud y cyflogau am y flwyddyn ariannol nesaf. <i>It was decided to ask H.Bulman to continue to do the payroll for the next financial year.</i></p> <p>Cynnig/<i>Proposed</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Jones Eilio/<i>Seconder</i>: Cyng/<i>Cllr</i> Rhian Hughes</p> <p>Hoffai'r Cadeirydd i'r holl Gynghorwyr gael golwg ar y gyllideb a gweld lle y gellir gwneud arbedion a dod â'u syniadau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.</p> <p><i>Chair would like all Cllrs to have a look at the budget and see where savings can be made and bring their ideas for discussion at the next meeting.</i></p>	• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£300.12		• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.50		• HMRC	£150.60		• DJS Engineering Services Ltd (LOLER – Flag poles)	£30.00		• Zurich (Renewal 2024/25)	£1,532.61		Clerc / Clerk
• Cyflog Gweithiwr Strydlun / <i>Streetscene worker salary</i>	£300.12																
• Cyflog y Clerc / <i>Clerk salary</i>	£301.50																
• HMRC	£150.60																
• DJS Engineering Services Ltd (LOLER – Flag poles)	£30.00																
• Zurich (Renewal 2024/25)	£1,532.61																
10.	<p>ADRODDIAD Y GWEITHIWR STRYDLUN / STREET SCENE WORKER'S REPORT</p> <p>Dim i'w gofnodi.</p> <p>Mae angen gwneud y canlynol -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Glanhau prif strydoedd y dref yn wythnosol - Pentre, Sgwâr, Ffordd yr Orsaf, Stryd y Capel, Heol Pontrhydefendigaid. • Glanhau strydoedd eraill yn eu tro. 																

	<p>Bydd angen ymgynghori gyda'r gweithiwr Strydlun i drafod y newidiadau fydd mewn lle o 1af Ebrill ymlaen o ran cymryd gwasanaethau ychwanegol gan CSC. Y Cadeirydd a'r Cyng Sian Jones i gwrdd â'r gweithiwr Strydlun i drafod a rhoi gwybod iddo am y gwasanaethau ychwanegol sy'n cael eu cymryd.</p> <p><i>Nothing to report.</i></p> <p><i>The following needs to be done –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Main streets of the town to be cleaned weekly – Pentre, Square, Station Road, Chapel Street, Pontrhydfendigaid Road.</i> • <i>Other streets to be cleaned in rotation.</i> <p><i>It will be necessary to consult with the Street scene worker to discuss the changes that will be in place from 1st April onwards with regards to taking on extra services from CCC. Chair & Cllr Sian Jones to meet with the Street scene worker to discuss and inform him of the additional services that are being taken on.</i></p>	<p>Cyng / Cllr Arwel Jones & Sian Jones</p>
<p>11.</p>	<p>ADRODDIADAU IS-BWYLLGORAU / SUB-COMMITTEES REPORTS</p> <p>A) <u>Is-bwyllgor Parc a Blodau / Park & Flowers Sub-Committee</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Parc / Park</u> Gwiriadau bob pythefnos lechyd a Diogelwch y Parc i barhau - bydd y Cyng. Rhian Hughes yn cynnal y gwiriadau yn Chwefror/Mawrth. Diolchwyd i Cyng Rhian Hughes am wneud mis diwethaf. Gwiriadau bob pythefnos i'w wneud dros y gaeaf. <p><i>Fortnightly Health & Safety checks of the Park to continue – Cllr Rhian Hughes will carry out the checks for February/March. Thanks was extended to Cllr Rhian Hughes for doing last month. Fortnightly checks to be carried out over the winter.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <u>Blodau / Flowers</u> I'w drafod yn y cyfarfod nesaf wrth drafod y tendrau. <i>To be discussed next meeting when discussing the tenders.</i> <p><u>Tendr Blodau a Torri Porfa / Flowers & Grass Cutting tender</u> I'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau fydd 12 Ebrill a byddant yn cael eu trafod yng nghyfarfod mis Ebrill. <i>To be discussed at March meeting. Deadline for tenders' submission will be 12th April and they will be discussed at the April meeting.</i></p> <p>11.1 <u>Is-bwyllgor Bwrdd Digidol / Digital Board Sub-Committee</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Clerc wedi cyfarfod â datblygwyr y meddalwedd ac mae bellach yn y broses o uwch lwytho gwybodaeth ychwanegol i'r system. Penderfynwyd os oedd angen gwneud unrhyw waith cyfieithu, mai cwmni cyfieithu fyddai'n gwneud hynny. <p><i>Clerk has met with the software developers and is now in the process of uploading additional information to the system. It was decided that if any translation was needed, it would be done by a translation company.</i></p>	<p>Cyng/Cllr Rhian Hughes</p> <p>Clerc / Clerk</p>
<p>12.</p>	<p>PROSIECTAU I'R DYFODOL / FUTURE PROJECTS</p> <p>Prif flaenoriaethau'r Cyngor Tref yw / <i>The Town Council's main priorities are -</i></p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i> 2) Cae pob tywydd & Trac Rhedeg / <i>All weather pitch & Running Track</i> 3) Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i> 	

4) Gardd Gymunedol / *Community Garden*

5) Prosiect Peilot Cau y Sgwâr / Pilot project to close the main *Square Closure*

Prif flaenoriaeth y Cyngor Tref am 2024 yw prosiect Llwybr Ystwyth. Cyng Arwel Jones, Dewi Evans a Rhydian Wilson i symud y prosiect ymlaen ac i hysbysu'r Cyngor Tref am unrhyw ddatblygiadau.

The Town Council's main priority for 2024 is the Ystwyth Trail project. Cllrs. Arwel Jones, Dewi Evans and Rhydian Wilson to move the project forward and to keep the Town Council informed of any developments.

Clerc wedi drafftio Cynllun Prosiectau'r Dyfodol – Cynghorwyr i gymryd cyfrifoldeb am un prosiect ac arwain –

Clerk has drafted a Future Projects Plan – Councillors to take responsibility for one project and lead –

	Prosiect / Project	Pwy / Who	Diweddariad / Update
1.	Llwybr Ystwyth / <i>Ystwyth Trail</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones, Rhydian Wilson & Dewi Evans	Ar waith <i>Ongoing</i>
2.	Stondinau beiciau & Ffynhonnau dŵr / <i>Bike stands / Water fountains</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
3.	Gardd Gymunedol / <i>Community Garden</i>	Cyng/Cllr Rhian Hughes	Aros am y brydles gan CSC <i>Waiting for the lease from CCC</i>
4.	Map o'r dref / <i>Town Map</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
5.	Gwefan i'r dref a'r Bwrdd Digidol / <i>Town Website & Digital Board</i>	Cyng/Cllr Rhydian Wilson & Clerc/Clerk	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
6.	Ffynnon Garon	Cyng/Cllr Rhian Jones & D. Roberts	Ar waith <i>Ongoing</i>
7.	Gwobr Gŵyl Dewi / <i>St.David's Day Award</i>	Cyng/Cllr Gwion James	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>
8.	Pared Gŵyl Dewi / <i>St.David's Day Parade</i>	Cyng/Cllr Catherine Hughes	Ar waith <i>Ongoing</i>
9.	Llyfryn Llwybrau Tregaron / <i>Tregaron Trails booklet</i>	Cyng/Cllr Arwel Jones & Rhydian Wilson	Ar waith – Gwelir isod <i>Ongoing – See below</i>

1. Llwybr Ystwyth / *Ystwyth Trail*

Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda CNC a thrafodaethau anffurfiol gyda rhai perchnogion tir. Mae pethau'n symud ymlaen yn araf, bydd diweddariad arall yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf.

Discussions have taken place with NRW and informal discussions with some landowners. Things are moving forward slowly, another update will be given at next meeting.

	<p><u>6. Gwefan / Website –</u> Clerc i gysylltu â Gwe Cambrian i drafod cwblhau y wefan. <i>Clerk to contact Gwe Cambrian to discuss the completion of the website.</i></p> <p><u>8. Gwobr Gŵyl Dewi / St.David's Day Award</u> Mae nifer o enwebiadau wedi dod i law. Bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod o'r panel i drafod yr enwebiadau. Cyhoeddir yr enillydd yn ystod dathliad Dydd Gŵyl Dewi yn y dref. Awgrymodd y Cyng Catherine Hughes y dylai enillydd y wobwr arwain gorymdaith Gŵyl Dewi y flwyddyn nesaf drwy'r dref - pawb yn gytûn.</p> <p><i>Several nominations have been received. Clerc will arrange the panel meeting to discuss nominations. Winner will be announced during the St.David's Day celebration in the town. Cllr Catherine Hughes suggested that the winner of the award should lead next year's St. David's Day parade through the town - all in agreement.</i></p> <p><u>9. Pared Gŵyl Dewi / St.David's Day Parade</u> Mae trefniadau mewn lle ar gyfer dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Fawrth 1af. Gorymdaith i gychwyn o Ysgol Henry Richard a cherdded drwy'r dref i lawr i'r Neuadd Goffa lle bydd Ysgol Henry Richard yn perfformio. Bydd gwobr Dydd Gŵyl Dewi hefyd yn cael ei chyflwyno. Croeso i bawb fynychu.</p> <p><i>Arrangements are in place for the St.David's Day celebration on March 1st .Parade to start from Ysgol Henry Richard and walk through the town down to the Memorial Hall where Ysgol Henry Richard will be performing. The St.David's Day award will also be presented. Everyone welcome to attend.</i></p>	
13.	<p>CEISIADAU CYNLLUNIO / PLANNING APPLICATIONS Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
14.	<p>CANIATAD CYNLLUNIO / PLANNING APPROVED Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
15.	<p>UN LLAIS CYMRU / ONE VOICE WALES Ebyst wrth Un Llais Cymru – wedi cael eu danfon ymlaen at y Cynghorwyr cyn y cyfarfod. <i>Emails from One Voice Wales Ward - forwarded to Councillors prior to meeting.</i></p>	
16.	<p>PROSIECT CYLCH CARON / CYLCH CARON PROJECT Dim i'w gofnodi <i>Nothing to report</i></p>	
17.	<p>HYFFORDDIANT AELODAU'R CYNGOR / COUNCIL MEMBERS TRAINING</p> <p>A) Cynllun Hyfforddiant / Training Plan Cyflwynodd y Clerc gynllun hyfforddi drafft - trafodwyd a phawb yn cytuno i'w dderbyn. <i>The Clerk presented a draft training plan - It was discussed and all in agreement to accept.</i></p> <p>B) Hyfforddiant Cod Ymddygiad / Code of Conduct Training Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru i gael gwybodaeth am yr hyfforddiant –</p> <ul style="list-style-type: none"> i. £38.00 y pen fesul sesiwn, cyfanswm o £418.00 ar gyfer 11 o fynychwyr ii. £345 (tan 1af Ebrill) ar gyfer cyfanswm o 20 o fynychwyr iii. Sesiwn hyfforddi yn rhedeg o 6.30pm-8.00pm 	Clerc / Clerk

	<p>Clerc i gysylltu ag Un Llais Cymru am ddyddiadau posib ar gyfer yr hyfforddiant.</p> <p><i>Clerk has been in contact with One Voice Wales for information about the training</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>i. £38.00 per person per session totalling £418.00 for 11 attendees</i> <i>ii. £345(until 1st April) for total of 20 attendees</i> <i>iii. Training session run from 6.30pm-8.00pm</i> <p><i>Clerk to contact One Voice Wales for possible dates for the training</i></p>	
18.	<p>GOHEBIAETH / CORRESPONDENCE</p> <p>18.1 - Fan llyfrgell / <i>Library Van</i> - Mae trigolion wedi bod mewn cysylltiad â phryderon bod y Fan Llyfrgell wedi stopi dod i'r dref / <i>Residents have been in contact with concerns that the Library Van has stopped coming to the town.</i></p> <p>18.2 - 'Free Guided Walk' – NRW</p> <p>18.3 - Diolch wrth DPJ am y rhodd £200 o gasgliad Nadolig 2022 / <i>Thank you from DPJ for the £200 donation from the 2022 Christmas collection</i></p> <p>18.4 - Ben Lake – Arolwg Bancio / <i>Banking Survey Plaid Cymru Ceredigion</i></p> <p>18.5 - Parc Egni Lan Fawr <i>Energy Park</i></p> <p>18.6 - Cymdeithas yr Iaith – Gorchymyn Erthygl 4</p> <p>18.7 - Elin Jones – Holiadur 20mya / <i>20mph survey</i></p> <p>18.8 - Bwrdd Hywel Dda Board - Mae cam ymgysylltu terfynol Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn digwydd ym mis Chwefror / <i>Final Engagement Phase of Wales Air Ambulance Service Takes Place in February</i></p> <p>18.9 - Diolch am y cymorth ariannol / <i>Thanks for financial assistance –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - Clwb C.Ff.I Tregaron YFC <p>18.10- Cymorth Ariannol / <i>Financial Assistance –</i></p> <ul style="list-style-type: none"> - Marie Curie - Kids Cancer Charity - Teifi Trail - £500 	
19.	<p>UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS</p> <p>19.1 – Cyng./Cllr Sian Jones – A oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i ddangos ein cefnogaeth i'r gymuned ffermio – trafodwyd a chytunwyd i ryddhau datganiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos cefnogaeth y Cyngor Tref ac i annog pawb i gwblhau'r ymgynghoriad.</p> <p><i>Is there anything we can do to show our support to the farming community - it was discussed and agreed to release a statement on social media showing the Town Council's support and to encourage everyone to complete the consultation.</i></p> <p>Cyng./Cllr Owain Pugh –</p>	

	<p>Nid yw piler y wal ar y gyffordd i Benrodyn oddi ar Stryd y Capel yn ddiogel. Clerc i adrodd i CLIC.</p> <p><i>Wall pillar on junction to Penrodyn off Chapel Street is unsafe. Clerk to report to CLIC.</i></p>	
20.	<p>Bydd y cyfarfod misol nesaf yn cael ei gynnal nos Lun Mawrth 18fed 2024 am 7.30pm. Cynhelir y cyfarfod yn Neuadd Goffa Tregaron.</p> <p><i>The next monthly meeting will be held on Monday 18th March 2024 at 7.30pm. It will be held at Tregaron Memorial Hall.</i></p>	
21.	<p>Terfynwyd y cyfarfod / <i>Meeting was closed</i></p>	